# Sut mae ysgrifennu CV

Mae CV sydd wedi'i strwythuro'n dda yn hanfodol ar gyfer gwneud argraff dda, ac rydyn ni weithiau'n gofyn am un fel rhan o gais.

Os oes angen i chi gyflwyno CV, dyma rai canllawiau i chi eu dilyn:

### 1. Gwybodaeth gyswllt

Ar frig eich CV, rhowch:

- Enw llawn
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad e-bost proffesiynol

### 2. Proffil personol

Ysgrifennwch ddatganiad personol cryno sy'n crynhoi'ch sgiliau allweddol, profiad a nodau gyrfa.

Mae'n iawn i hwn fod yn gryno - mae tua 3-4 brawddeg yn iawn.

### 3. Profiad gwaith

Rhestrwch eich profiad gwaith mewn trefn gronolegol (swydd fwyaf diweddar yn gyntaf). Rhowch:

- Teitl swydd
- Enw'r cyflogwr
- Dyddiadau cyflogaeth
- Cyfrifoldebau allweddol a chyflawniadau




### 4. Addysg a chymwysterau

Rhowch eich cefndir addysgol gyda'r:

- Cymwysterau a gafwyd
- Ysgolion/Sefydliad(au) yr aethoch chi iddyn nhw

### 5. Sgiliau allweddol

Gallwch ddefnyddio'r adran hon i dynnu sylw at y sgiliau sydd gennych, sy'n berthnasol i'r rôl. Gallai'r rhain gynnwys:

- Sgiliau technegol (e.e. hyfedredd mewn meddalwedd, ieithoedd)
- Sgiliau meddal (e.e. gwaith tîm, cyfathrebu)

### 6. Adrannau ychwanegol (os yw'n berthnasol)

Efallai y byddwch hefyd eisiau cynnwys:

- Profiad neu lwyddiannau gwirfoddol/cymunedol
- Cyhoeddiadau
- Ieithoedd rydych chi'n eu siarad

Drwy ddilyn y canllaw hwn, byddwch yn creu CV cryf sy'n arddangos eich cryfderau ac yn cynyddu eich siawns o gael cyfweliad.

**Awgrymiadau fformatio**

- Ceisiwch gadw'ch CV i ddwy dudalen ar y mwyaf os gallwch chi.
- Defnyddiwch ffont clir, proffesiynol (e.e., Arial, Calibri, Times New Roman).
- Mae pwyntiau bwled yn helpu i ddarllen yn glir ac yn tynnu sylw at eich cyflawniadau.
- Galllech addasu'ch CV ar gyfer pob cais am swydd, gan bwysleisio'r profiad mwyaf perthnasol.

Trivallis.